

## NOSC 2026 Rhif 62

### BWYD

Penderfynu ar statws awdurdodi: awdurdodi hadau a blawd hadau *Vigna subterranea* (L.) Verdc. fel bwyd newydd (bwyd traddodiadol o drydedd wlad)

#### Nodyn esboniadol

(nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r penderfyniad)

Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer Cymru gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthygl 15(4) o Reoliad [\(EU\) 2015/2283](#) Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwydydd newydd (EUR 2015/2283). Mae'n ymwneud â hysbysiad o fwyd traddodiadol o drydedd wlad o dan y weithdrefn yn Erthygl 14 o'r Rheoliad hwnnw, sy'n darparu gweithdrefn awdurdodi gyflym ar gyfer rhai bwydydd newydd sydd â hanes o gael eu defnyddio'n ddiogel mewn trydedd wlad (y tu allan i Ynysoedd Prydain).

Nid yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel Awdurdod Diogelwch Bwyd Cymru wedi cyhoeddi unrhyw wrthwynebiadau diogelwch rhesymol priodol i roi'r bwyd traddodiadol dan sylw ar y farchnad yng Nghymru.

Mae'r penderfyniad hwn yn awdurdodi, mewn perthynas â Chymru, rhoi hadau a blawd hadau *Vigna subterranea* (L.) Verdc. (cnau daear Bambara) ar y farchnad fel bwyd traddodiadol o drydedd wlad. Mae telerau'r awdurdodiad a'r amodau, y gofynion a'r fanyleb y mae'r bwyd traddodiadol wedi'i awdurdodi wedi'u nodi yn yr Atodlen.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad [\(EC\) Rhif 178/2002](#) Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd (EUR 2002/178).

## Penderfyniad

## **Cymhwyso a dod i rym**

1. Mae'r penderfyniad hwn yn berthnasol i Gymru, a daw i rym ar 31 Mawrth 2026.

## **Dehongli**

2. Yn y penderfyniad hwn:

Ystyr "Rheoliad 1169/2011" yw Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr (EUR 2011/1169).

3. Mae unrhyw ymadrodd a ddefnyddiwyd yn y penderfyniad hwn ac sy'n cael eu defnyddio yn Rheoliad (EU) Rhif 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwydydd newydd, yn rhannu'r un ystyr ag sydd ganddynt yn y Rheoliad hwnnw.

## **Penderfynu ar statws awdurdodi cnau daear Bambara (hadau a blawd hadau *Vigna subterranea* (L.) Verdc.)**

4. Mae hadau a blawd hadau *Vigna subterranea* (L.) Verdc. yn cael ei awdurdodi i gael ei roi ar y farchnad yng Nghymru, fel bwyd traddodiadol o drydedd wlad, yn unol â'r amodau, y gofynion a'r fanyleb a nodir yn yr Atodlen.

Jeremy Miles AS

19 Mawrth 2026

## ATODLEN

Bwyd newydd awdurdodedig	Yr amodau y gellir defnyddio'r bwyd newydd		Gofynion labelu penodol ychwanegol	Gofynion eraill
<p>Hadau a blawd hadau <i>Vigna subterranea</i> (L.) Verdc. (bwyd traddodiadol o drydedd wlad)</p>	<p><i>Categori bwyd penodedig</i></p>	<p><i>Uchafswm lefelau</i></p>	<p>1. Dynodiad y bwyd newydd ar label y bwyd sy'n ei gynnwys yw:            “Bambara (<i>Vigna subterranea</i>) seeds/nut/bean/groundnut” neu            “Bambara (<i>Vigna subterranea</i>) seed/nut/bean/groundnut flour” yn dibynnu ar y ffurf a ddefnyddir</p> <p>2. Rhaid i labelu bwyd sy'n cynnwys y bwyd newydd gynnwys datganiad y gall hadau a blawd hadau <i>Vigna subterranea</i> achosi adweithiau alergaidd i ddefnyddwyr ag alergeddau hysbys i gnau daear a ffa soia. Bydd y datganiad hwn yn ymddangos yn agos at y rhestr o gynhwysion neu, yn absenoldeb rhestr o gynhwysion, yn agos at enw'r bwyd</p>	
	<p>Heb ei nodi</p>			

			<p>3. Pan fydd yr hadau yn cael eu gwerthu heb eu coginio, rhaid i'r labeli gynnwys datganiad y dylid eu socian a'u berwi cyn eu bwyta</p> <p>Rhaid cyflwyno'r wybodaeth am fwyd yn unol â darpariaethau <a href="#">Rheoliad 1169/2011</a> sy'n berthnasol i wybodaeth orfodol am fwyd.</p>	
<b>Manyleb</b>				
<p><b>Disgrifiad/Diffiniad:</b> Mae'r bwyd traddodiadol yn cynnwys hadau sych cyfan heb gragen <i>Vigna subterranea</i> (L.) Verdc. [Teulu: Fabaceae (alt. Leguminosae)] neu'r blawd a geir trwy sawl cam, gan gynnwys triniaeth wres a melino'r hadau.</p> <p>Cyfystyron: <i>Cryptolobus subterraneus</i> (L.) Spreng., <i>Glycine subterranea</i> L., <i>Tetrodea subterranea</i> (L.) Raf., <i>Voandzeia subterranea</i> (L.) Thouars.</p> <p>Enwau cyffredin: Cnau daear Bambara, cnau Bambara, ffa Bambara, pys Bambara, ffa Nyimo.</p>				
<p><b>Hadau sych:</b></p> <p><b>Ystod cyfansoddiad nodweddiadol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleithder: 7-11 %</li> <li>• Protein: &gt; 15%</li> <li>• Carbohydradau: 32-65 %</li> </ul>		<p><b>Blawd hadau sych:</b></p> <p><b>Ystod cyfansoddiad nodweddiadol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleithder: 4-7 %</li> <li>• Protein: &gt; 15 %</li> <li>• Carbohydradau: 55-75 %</li> </ul>		

- Siwgr: < 6.0 %
- Braster: 4-7 %
- Ffibr: 7-31 %

**Metelau trwm:**

- Arsenig:  $\leq 0.05$  mg/kg
- Cadmiwm:  $\leq 0.02$  mg/kg
- Plwm: < 0.05 mg/kg
- Merchwri:  $\leq 0.01$  mg/kg

**Mycotocsinau:**

- Swm yr Aflatocsinau (B<sub>1</sub>+B<sub>2</sub>+G<sub>1</sub>+G<sub>2</sub>): < 4  $\mu$ g/kg
- Aflatocsin B<sub>1</sub>: < 2  $\mu$ g/kg
- Swm Ffumonisin (B<sub>1</sub> + B<sub>2</sub> + B<sub>3</sub>): < 60  $\mu$ g/kg
- Deoxynifalenol: < 0.1 mg/kg
- Ocratocsin A: < 0.5  $\mu$ g/kg
- Zearalenone: < 0.1 mg/kg

**Halogion eraill neu ffactorau gwrth-faethol:**

- Asid hydrocyanig (gan gynnwys asid hydrocyanig wedi'i rwymo mewn glycosidau cyanogenig): < 15 mg/kg

- Siwgr: < 20 %
- Braster: 4-9 %
- Ffibr: 10-30 %

**Metelau trwm:**

- Arsenig:  $\leq 0.05$  mg/kg
- Cadmiwm:  $\leq 0.02$  mg/kg
- Plwm: < 0.05 mg/kg
- Merchwri:  $\leq 0.01$  mg/kg

**Mycotocsinau:**

- Swm yr Aflatocsinau (B<sub>1</sub>+B<sub>2</sub>+G<sub>1</sub>+G<sub>2</sub>): < 4  $\mu$ g/kg
- Aflatocsin B<sub>1</sub>: < 2  $\mu$ g/kg
- Swm Ffumonisin (B<sub>1</sub>+B<sub>2</sub>+B<sub>3</sub>): < 60  $\mu$ g/kg
- Deoxynifalenol: < 0.1 mg/kg
- Ocratocsin A: < 0.5  $\mu$ g/kg
- Zearalenone: < 0.1 mg/kg

**Halogion eraill neu ffactorau gwrth-faethol:**

- Asid hydrocyanig (gan gynnwys asid hydrocyanig wedi'i rwymo mewn glycosidau cyanogenig): < 10 mg/kg
- Asid ffytig: < 0.01 g/100 g

**Meini Prawf Microbiolegol:**

- Sborau mesoffilig aerobig: < 1 sbôr/g
- *Alicyclobacillus*: Heb ei ganfod mewn 10 g
- *Bacillus cereus* tybiedig: ≤ 10 CFU/g
- Coliformau: < 10 cfu/g
- *Escherichia coli*: < 10 cfu/g
- *Salmonela*: Heb ei ganfod mewn 25 g
- *Staphylococcus aureus*: < 10 cfu/g
- Cyfanswm y micro-organebau: < 5 000 cfu/g
- Burum a Mowldiau: < 100 cfu/g

CFU: Unedau Ffurio Cytrefi

**Meini Prawf Microbiolegol:**

- Sborau mesoffilig aerobig: < 1 sbôr/g
- *Alicyclobacillus*: Heb ei ganfod mewn 10 g
- *Bacillus cereus* tybiedig: ≤ 10 CFU/g
- Coliformau: < 10 cfu/g
- *Escherichia coli*: < 10 cfu/g
- *Salmonela*: Heb ei ganfod mewn 25 g
- *Staphylococcus aureus*: < 10 cfu/g
- Cyfanswm y micro-organebau: < 1 000 cfu/g
- Burum a Mowldiau: < 100 cfu/g

CFU: Unedau Ffurio Cytrefi